# Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015

**Canllawiau**

**Dyddiad cyhoeddi: 13 Chwefror 2015**

# Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015

**Y Gynulleidfa** Prif Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Cynllunio Lleol; Busnesau; Asiantaethau'r Llywodraeth; Grwpiau Eraill yn y Sector Cyhoeddus; Cyrff Proffesiynol a Grwpiau Buddiant; Grwpiau Gwirfoddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Trosolwg** Yn y canllawiau a'r cyfarwyddyd hyn nodir gofynion newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio rhai ceisiadau cynllunio penodol at Weinidogion Cymru fel bod modd iddynt benderfynu a ydynt am alw'r cais i mewn er mwyn iddynt hwy ddod i benderfyniad yn ei gylch.

**Camau i'w cymryd** Sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn ymwybodol, o 16 Chwefror 2015 ymlaen:

Bod y cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol cyfeirio ceisiadau am "Ddatblygiadau Olew a Nwy Anghonfensiynol" at Weinidogion Cymru, os nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu eu gwrthod.

**Rhagor o wybodaeth**

Y Gangen Rheoli Datblygu
Yr Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn: 02920 823878
E-bost: planning.directorate@wales.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/circulars/nafw/?skip=1&lang=cy

## Cynnwys

Cyflwyniad

Cyd-destun y Cyfarwyddyd Newydd

Cychwyn ac Effaith

Y Cyfarwyddyd

Pwrpas a Chwmpas .

Cyflwyno Gwybodaeth i Weinidogion Cymru

Cyfyngu ar Roi Caniatâd Cynllunio

Monitro ac Adolygu

**Atodiad 1 - Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015**

# Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2015

## CYFLWYNIAD

1. Mae Adran 77 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn rhoi hawl i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fynnu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio, neu am gymeradwyaeth unrhyw awdurdod cynllunio lleol sy'n angenrheidiol dan orchymyn datblygu, yn cael eu cyfeirio atynt hwy yn hytrach na chael eu penderfynu gan awdurdodau cynllunio lleol.

2. Mae Erthygl 18(1) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/801) ("y Gorchymyn") yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau sy'n cyfyngu ar hawl awdurdod cynllunio lleol i roi caniatâd cynllunio, naill ai am gyfnod amhenodol neu am gyfnod a nodir yn y cyfarwyddiadau, mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad neu ddosbarth o ddatblygiadau a enwir. Yn unol ag erthygl 18(3), mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol ddelio â cheisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau y mae cyfarwyddyd o'r fath i'w gymhwyso iddynt yn y fath fodd fel y rhoddir y cyfarwyddyd ar waith.

3. Mae Erthygl 22(5) y Gorchymyn yn golygu bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol ddarparu, pan wneir cais o dan erthygl 4 y Gorchymyn (cais am gymeradwyaeth i fater a gadwyd yn ôl) ac erthygl 5 (cais am ganiatâd cynllunio), wybodaeth y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani yn unol â'r cyfarwyddyd, gan gynnwys gwybodaeth am y modd y deliwyd ag unrhyw gais o'r fath. Yn y cyfarwyddyd hwn gellir nodi pwy sydd i'w hysbysu ac ym mha fodd y dylid darparu'r wybodaeth.

4. Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015 (y "Cyfarwyddyd") i'w weld yn Atodiad 1.

5. Yn unol â'r drefn ar gyfer hysbysu'r Gweinidogion, pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod cais am ddatblygiad olew a nwy anghonfensiynol, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaniateir i'r awdurdod roi caniatâd cynllunio ar gyfer y cais nes bydd cyfnod o 21 o ddiwrnodau wedi mynd heibio, gan ddechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir yn y Cyfarwyddyd. Fodd bynnag, caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 21 o ddiwrnodau, yn hysbysu'r awdurdod nad yw Gweinidogion Cymru'n bwriadu galw'r cais dan sylw i mewn o dan adran 77 Deddf 1990 mewn perthynas â'r cais hwnnw, neu os nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn fod y datblygiad yn ddatblygiad olew a nwy anghonfensiynol.

6. Bwriedir i'r canllawiau hyn sicrhau na fydd Gweinidogion Cymru ond yn cael eu hysbysu lle bo angen a bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar y lefel briodol.

## CYD-DESTUN Y CYFARWYDDYD NEWYDD

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gweithredu'n rhagofalus mewn perthynas â datblygu adnoddau olew a nwy anghonfensiynol yng Nghymru. Yn wyneb hynny, mae'r Cyfarwyddyd Hysbysu hwn yn mynnu, pan fwriedir

cymeradwyo cais cynllunio ar gyfer datblygiad olew a nwy anghonfensiynol lle defnyddid technoleg hollti hydrolig, fod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gyfeirio'r cais cynllunio at Weinidogion Cymru i ddechrau, er mwyn iddynt hwy benderfynu a ddylid galw'r cais i mewn.

8. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a yw materion yn ymwneud â'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd wedi cael eu craffu'n briodol, oherwydd gall materion godi sydd o bwys i ardal ehangach na'r ardal leol. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dewis galw'r cais cynllunio i mewn neu, os yw hynny'n briodol, roi cyfarwyddyd nad yw'r cais i gael ei gymeradwyo tan ryw adeg a bennir gan Weinidogion Cymru.

**CYCHWYN AC EFFAITH**

9. O 16 Chwefror 2015 ymlaen, bydd y canllawiau yn y cylchlythyr hwn a'r cyfarwyddyd yn Atodiad 1 yn mynnu bod ceisiadau cynllunio am "Ddatblygiadau Olew a Nwy Anghonfensiynol" yn cael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru, lle nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu eu gwrthod.

10. Mae'r canllawiau hyn a'r Cyfarwyddyd yn Atodiad 1 yn berthnasol i Gymru yn unig.

**Y CYFARWYDDYD**

11. Nid yw'r Cyfarwyddyd yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 77, Deddf 1990 i roi cyfarwyddyd y dylid galw cais cynllunio penodol i mewn i'w benderfynu ganddynt hwy, pa un a yw'r cyfarwyddyd newydd yn berthnasol i'r cais dan sylw ai peidio, o gofio eu polisi ar alw i mewn.

**PWRPAS A CHWMPAS**

12. Mae'r Cyfarwyddyd yn egluro'r trefniadau a'r meini prawf ar gyfer hysbysu Gweinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau olew a nwy anghonfensiynol, sef datblygiad sy'n ymwneud ag archwilio, arfarnu neu gynhyrchu methan gwely glo neu olew neu nwy siâl ar y tir drwy ddefnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydrolig (ond nid yw'n cynnwys gwneud tyllau turio archwiliol nad ydynt yn ymwneud â chynnal technegau echdynnu anghonfensiynol o'r fath).

13. Pwrpas y Cyfarwyddyd yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a ydynt am ddefnyddio eu pwerau i alw ceisiadau i mewn o dan adran 77, Deddf 1990.

**GOFYNION HYSBYSU**

14. Mae paragraff 3 y Cyfarwyddyd yn cyflwyno gofyniad hysbysu, sef bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio ceisiadau am ddatblygiadau olew a nwy anghonfensiynol at Weinidogion Cymru lle nad yw'r awdurdod yn bwriadu gwrthod cais o'r fath. Gellir anfon yr wybodaeth at Weinidogion Cymru drwy gyfathrebiad electronig neu ar bapur. Mae'r gofyniad i hysbysu yn cynnwys darparu'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 5 y Cyfarwyddyd.

**CYFYNGU AR ROI CANIATÂD CYNLLUNIO**

15. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, mae paragraff 6 y Cyfarwyddyd yn rhwystro'r awdurdod rhag rhoi caniatâd cynllunio am gyfnod o 21 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

16. Fodd bynnag, mae paragraff 7 y Cyfarwyddyd yn caniatáu i'r awdurdod fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau os bydd yr awdurdod wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei alw i mewn neu nad ydynt o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad olew a nwy anghonfensiynol.

**MONITRO AC ADOLYGU**

17. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'n ofalus nifer y ceisiadau a gyfeirir at Weinidogion Cymru yn sgil y gofyniad hwn i hysbysu yn ogystal â nifer y ceisiadau sydd, o ganlyniad, yn cael eu galw i mewn. Adolygir ei effaith pan fydd y Cyfarwyddyd newydd wedi bod ar waith am gyfnod priodol o amser.

**Neil Hemington**
Prif Gynllunydd
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Adran Cyfoeth Naturiol

Y Prif Weithredwr:
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
Swyddog y Parc Cenedlaethol:
Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

**Atodiad 1**

# Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015